# CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR:
# BWRDD ARHOLI'R SENEDD

**YN ADRODD I:** Y Senedd
**YN CYFARFOD:** Yn ôl yr angen

---

**AELODAU:**

| Byrddau'r Dyfarniadau | Byrddau Symud Ymlaen |
|---|---|
| • Y Dirprwy Is-Ganghellor sy'n gyfrifol am safonau academaidd, oni bai bod cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo i Ddirprwy Is-Ganghellor arall neu i uwch aelod arall o staff sydd â phrofiad addas (Cadeirydd)<br><br>Gall Deon Cyswllt hefyd gadeirio ar yr amod bod ganddo/ganddi ddigon o annibyniaeth oddi wrth yr Adrannau Academaidd sy'n cael eu hystyried.<br><br>• Adolygydd Allanol y Senedd<br><br>• Arholwyr Mewnol i gynrychioli pob Adran sy'n dysgu modiwlau y mae canlyniadau'n cael eu hystyried ar eu cyfer<br><br>• Unigolion priodol a all fod yn bresennol ar wahoddiad y Cadeirydd mewn swyddogaeth ymgynghorol; ni fydd gan yr unigolion hynny hawliau pleidleisio<br><br>• Cofrestryddion Cynorthwyol a'r Dirprwy Gofrestrydd – Gweinyddiaeth Myfyrwyr (Ysgrifennydd y Pwyllgor) | • Y Cofrestrydd Academaidd (oni bai bod cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo i uwch aelod arall o staff sydd â phrofiad priodol ar yr amod bod ganddo/ganddi ddigon o annibyniaeth oddi wrth yr Adrannau Academaidd sy'n cael eu hystyried) (Cadeirydd)<br><br>• Cynrychiolwyr o bob Adran sydd â modiwlau y mae canlyniadau'n cael eu hystyried ar eu cyfer. Gall hyn fod yn arholwyr mewnol neu staff y gofrestrfa academaidd<br><br>• Cofrestryddion Cynorthwyol a'r Dirprwy Gofrestrydd – Gweinyddiaeth Myfyrwyr (Ysgrifennydd y Pwyllgor)<br><br>• Unigolion priodol a all fod yn bresennol ar wahoddiad y Cadeirydd mewn swyddogaeth ymgynghorol; ni fydd gan yr unigolion hynny hawliau pleidleisio |

Bydd cyfanswm yr aelodau'n amrywio yn ôl nifer yr adrannau sydd i'w cynrychioli.

---

**CYLCH GWAITH**

Bwrdd Arholi'r Senedd sy'n gyfrifol am roi cadarnhad terfynol i ddyfarniadau, dosbarthiadau gradd, a hawl symud ymlaen i'r holl ymgeiswyr yn seiliedig ar argymhellion gan Fyrddau Arholi'r Gyfadran a'r Adrannau.

**DS:** Bydd y canlynol yn adrodd i'r pwyllgor hwn:

Byrddau Arholi'r Adrannau / Bwrdd Arholi'r Gyfadran

**CYLCH GORCHWYL**

Cyflawni'r holl weithgareddau canlynol yng nghyswllt cynlluniau gradd Prifysgol Aberystwyth sy’n cael eu darparu yn y campws cartref ac unrhyw gangen gampws, ac mewn cydweithrediad â darparwyr Addysg Uwch.

1. Derbyn canlyniadau'r holl asesiadau a gyflawnwyd a fydd yn cyfrannu tuag at ddyfarniadau.

2. Cadarnhau cynnydd myfyrwyr yn seiliedig ar argymhellion gan Fyrddau Arholi'r Gyfadran a’r Adrannau.

3. Cadarnhau dangosyddion ailsefyll yn gysylltiedig ag amgylchiadau arbennig.

4. Cadarnhau dosbarthiad terfynol y radd yn seiliedig ar argymhellion gan Fyrddau Arholi'r Gyfadran a’r Adrannau.

5. Cadarnhau dyfarniadau a dosbarthiadau gradd ar gyfer ymgeiswyr gradd Anrhydedd Gyfun a Phrif Bwnc/Is-bwnc na chawsant eu hystyried hyd yn hyn.

6. Cadarnhau dyfarniadau ymadael i fyfyrwyr nad ydynt yn parhau â'u dyfarniad arfaethedig, neu a fethodd gymhwyso amdanynt.

7. Gwirio bod y Cyfadrannau ac Adrannau wedi gweithredu'n gywir yn yr uchod.

8. Ystyried adborth Adolygydd Allanol y Senedd gan ganolbwyntio ar faterion asesu o natur gyffredinol nad ydynt yn benodol i bwnc, gan gynnwys enghreifftiau o arfer da, meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach, a materion sy'n peri pryder.